



**Deddf Cynllunio 2008 – adran 61 ac adran 65**

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona (EN010137)**

**Diwygio penodiad yr Awdurdod Archwilio**

Derbyniwyd y cais uchod i'w archwilio ar 21 Mawrth 2024. Ar 3 Ebrill 2024 cyhoeddwyd dogfen yn cadarnhau bod Caroline Jones (arweinydd), Jason Rowlands, Jessica Powis, Graham Hobbins ac Andrew Harwood wedi'u penodi gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau dirprwyedig, i archwilio'r cais ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona. Gwnaethpwyd y penodiadau hyn yn unol â Pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r Arolygiaeth Gynllunio.

Oherwydd amgylchiadau personol, nid yw Andrew Harwood bellach yn gallu parhau yn ei rôl fel aelod o'r Panel ar gyfer y prosiect hwn ac mae wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad o'r panel o dan a66(3) o Ddeddf Cynllunio 2008.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi ystyried y setiau sgiliau sydd eu hangen ar gyfer aelodau'r Panel ac wedi penderfynu, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau dirprwyedig, i benodi Julie de-Courcey yn aelod newydd o'r Panel ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona, gydag effaith o 14 Mehefin 2024. Mae'r penodiad hwn wedi'i wneud yn unol â Pholisi Gwrthdaro Buddiannau'r Arolygiaeth Gynllunio.

Felly mae'r Panel yn cynnwys:

- Caroline Jones (Arweinydd y Panel)
- Jason Rowlands
- Jessica Powis
- Graham Hobbins
- Julie de-Courcey

*Yr Arolygiaeth Gynllunio*

**Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn gan swyddogion ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau o dan bwerau dirprwyedig**

